

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



CYNGOR DYDD SUL, 3 GORFFENNAF 2022 PAFILIWN RHYNGWLADOL, MAES Y SIOE 1.00YP

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Caryl Haf **IS-GADEIRYDD:** Mr Hefin Evans

PRESENNOL: Caryl Haf (Cadeirydd y Cyngor); Hefin Evans (Is-gadeirydd y Cyngor); Sian Healey (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cystadlaethau); Aled Thomas (Cadeirydd Marchnata a digwyddiadau); Cerys Harts (Cadeirydd Fforwm Ieuencid); Nerys Lewis (Cadeirydd Rhyngwladol); William Jones (Cadeirydd Materion Gwledig); Katie Davies (Cyn-Gadeirydd); Emma Rees, Leanne Davies, Niall Evans, Raiff Devlin, Carys Rees, Caitlin Harley (Brycheiniog); Sion Evans, Aled Thomas, Iestyn Owen (Sir Gar); Dewi Davies, Sioned Davies, Rhiannon Davies (Ceredigion); Meinir Jones, Gwen Thomas (Eryri); Katie Matthews, Rhiannon Williams, Dominic Hampson-Smith (Gwent); Manon Williams (Meirionnydd); Aled Rees (Maldwyn); Carys Phillips, Delun Evans (Sir Benfro); Sian Davies, Liz Swancott (Maesyfed); Rhys Richards, Fflur Roberts-Powell, Eiliw Haf Griffith (Ynys Mon)

HEFYD YN BRESENNOL: Claire Powell (Prif Weithredwr dros dro); Chris Lewis (Llywydd); Ed Dungait (Cadeirydd Cyngor FfCCFFI); Rhianwen Jones (Swyddog Cystadlaethau a Rhyngwladol); Anna Jones (Swyddog Marchnata a Chyfathrebu); Nia Haf (Swyddog Datblygu'r Gymraeg).

C/14/2022

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan Lantra am drefnu digwyddiadau felly dechreuodd y cyfarfod Cyngor am 1.50. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'w chyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb fel Cadeirydd a braf oedd gweld pawb yn ol yn Llanelwedd. Croesawyd yr holl gynrychiolwyr a'r aelodau cyfetholedig oedd yn bresennol.

Nododd y Cadeirydd nad oedd alarwm tan wedi'i drefnu felly i ddilyn yr arwyddion os bydd yn canu. Roedd cyfieithiad ar gael – profwyd y cyfleuster. Holodd y Cadeirydd i bawb wirio bod eu ffonau symudol i ffwrdd er mwyn cynnal llif y cyfarfod.

Ers y cyfarfod diwethaf mae digwyddiadau llwyddiannus wedi'u cynnal; siarad cyhoeddus, diwrnod gwaith maes, diwrnod chwaraeon a llawer iawn o ddigwyddiadau sirol ynghyd a llawer o gyfarfodydd. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau, beirniaid, stiwardiaid a phawb a fynychodd y digwyddiadau yma er mwyn cefnogi CFFI yng Nghymru.

Nodwyd fod Phil Ellis wedi ymddiswyddo fel Prif Weithredwr a bod Claire Powell wedi ei phenodi fel Prif Weithredwr dros dro tan fydd olynnydd yn cael ei benodi.

Bydd Cinio'r Cadeirydd yn cymryd lle ar nos Sadwrn, Medi 10 2022, mi fydd tocynnau ar werth dros yr wythnos nesaf. Holodd y Cadeirydd y Siroedd i gefnogi gan fyddai'n braf gweld cynifer a phosib yno i lenwi'r lle.

Mae'r ffocws bellach ar baatoi ar gyfer cystadlaethau Sioe Frenhinol Cymru a'r Pentref Ieuenctid.

Cyn dechrau'r cyfarfod, mae un cyhoeddiad pwysig i'w rannu, mae CFFI Cymru wedi bod yn lwyddiannus yn eu cais ar gyfer grant Haf o Hwyl a wedi derbyn £94K. Bydd yr arian hwn yn cael eu rhannu hwng 144 clwb dros Gymru a'r 12 Sir yn ogystal a CFFI Cymru. Bydd pob clwb yn cael £500 a £1000 i bob Sir. Bydd manylion llawn yn cael eu rhannu gyda'r staff sirol yn y cyfarfod staff dydd Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd i staff y swyddfa am lenwi'r cais, fydd yn grant ddefnyddiol i'r clybiau.

Annogodd pawb o amgylch y bwrdd i gymrhyd rhan gweithgar a llawn yn y cyfarfod.

C/15/2022

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Tom Bevan, Dafydd Jones, Iwan Meirion, Jayne Jones.

C/16/2022

DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU

Atgoffwyd aelodau'r pwyllgor o'r angen i ddatgan unrhyw ddiddordeb a all fod ganddynt yn unrhyw un o'r materion sy'n cael eu trafod.

C/17/2022

COFNODION

Ar ôl cylchredeg cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar, cadarnhawyd eu bod yn gofnod gwir a chywir.

Cynigydd: Katie Davies
Eilydd: Nerys Lewis

C/18/2022

PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

C/19/2022

GOHEBIAETH

Nid oedd unrhyw ohebiaeth wedi'i dderbyn.

C/20/2022

DERBYN ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU:

a) Cyllid a Rheolaeth – Caryl Haf ar absenoldeb Iwan Meirion

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Cafodd y cyllidebau am 2022/23 eu cadarnhau ac fe ragfynegir diffyg o achos colled grant NYVO a chynnydd mewn costau rhedeg. Mae cynllun ariannu mewn lle ac mae'r gwaith yn mynd ymlaen. Fe gaiff y cyllidebau eu hadolygu yn y cyfarfod nesaf.

2. Mae cais wedi cael ei gyflwyno am grant 'Haf o Hwyl'. Ers cyfarfod Cyllid a Rheoli ar 7fed Mehefi 2022 cafwyd cadarnhad fod y cais am £94k wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r grant yn golygu £500 i bob clwb, £1,000 i bob Sir a £10,000 i CFFI Cymru.

3. Derbyniodd Cyllid a Rheoli llythyr gan bwyllgor Cystadlaethau yn codi eu pryderon ynglŷn â rhanbarthu lleoliadau'r Eisteddfod. Teimlai bwyllgor Cyllid a Rheoli mae penderfyniad i'r Cyngor llawn y dylai hyn fod. Cafodd y penderfyniad gwreiddiol ei wneud gan bwyllgor Effaith ac Ymateb yn ystod y pandemic.
4. Cafwyd adroddiad Cyllid gan Claire Powell yn nodi'r balansau banc cyfredol, noddwyr a chronfeydd. Rhoddwyd diweddariad ar baratodau'r Pentref Ieuenctid a'r Sioe Frenhinol.
5. Rhoddwyd hefyd ddiweddariad ar y gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Menter a Busnes.
6. Cyllid a Rheoli wedi cytuno i ofyn i Mr Aled Jones, Prif Weithredwr Cymdeithas Sioe Frenhinol Cymru i ddod, i fod ar y pwyllgor fel aelod cyfetholedig. Cytunwyd hefyd i holi Aled i weithredu fel llofnodwr cyfrifon banc CFFI Cymru.
7. Cyllid wedi cytuno i glustnodi gwariant o'r gronfa adeiladu i beintio'r gegin a'r swyddfeydd fyny'r grisiau tu fewn, a'r bwth a drws y gweithdy tu allan. Bydd y gwaith allanol yn digwydd cyn y sioe frenhinol.
8. Mae Ashmole & Co wedi cwblhau'r archwiliad ar gyfer y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae'r cyfrifon terfynol yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ac mae CFFI Cymru yn edrych ar warged o tua £35,000.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Cymeradwyodd y Cyngor fod y Sir gwesteio yn dewis lleoliad ar gyfer yr Eisteddfod yn ei Sir ei hunain.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Cynrychiolydd Ynys Mon yn son fod eu haelodau yn awyddus i gynnal yr eisteddfod o fewn eu sir eu hunain a fod lleoliadau blynyddol gwahanol yn gyfle da i fynd i grwydro a chystadlu mewn siroedd gwahanol.

Cytuno wnaeth pob Sir arall gyda'r penderfyniad byddai'r Sir yn cael cynnig i gynnal yn Sir eu hunain os ydy'r cyfleusterau ar gael, ond byddai tri dewis lleoliad ar gael os nad. Bydd rhaid i Cffi Cymru a S4C i gymeradwyo'r lleoliad hefyd.

Nododd Cadeirydd Pwyllgor Cystadlaethau fod pob sir oedd yn bresennol yn y cyfarfod wnaeth gymeradwyo'r cynnig i ddechrau yn cytuno gyda'r penderfyniad.

Sir fel lleoliad cynnig cyntaf i gynnal eisteddfod wedi ei gario.

b) Cystadlaethau – Sian Healey

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Adolygodd y pwyllgory Diwrnod Maes a Chwaraeon, y ddau wedi'u nodi fel digwyddiadau llwyddiannus i'r Ffederasiwn, gyda'r aelodau'n datblygu sgiliau.
2. Dosbarthwyd amserlenni ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru a chytunwyd arnynt gan y pwyllgor.
3. Cytunwyd ar reolau ar gyfer 2022-23, ac eithrio Sioe Frenhinol Cymru 2023, a fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod cystadlaethau nesaf ar 26 Gorffennaf trwy Zoom.
4. Bydd y dyddiadau ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn -

Ffair Aeaf - 28 a 29 Tachwedd 2022

Gwledd o Adloniant (gan gynnwys cystadlaethau MOTY) – 4ydd a 5ed Mawrth

Diwrnod Siarad Cyhoeddus – 26ain Mawrth

Diwrnod Maes – 15fed Ebrill

Chwaraeon – 2 Gorffennaf

5. Enillydd Athletau Diwrnod Mabolgampau – Ceredigion.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Dyddiadau 2022-23

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Cododd y Cadeirydd y pwynt fod diwrnod chwaraeon yn bell ymlaen yn y flwyddyn sydd yn agos iawn at y sioe frenhinol gall fod yn annheg ar staff y swyddfa. Nododd Katie Davies byddai wythnos rhwng lefel Cymru a Chenedlaethol fyddai'n anodd cael timoedd gyda cynlleied o rybydd.

Cytunwyd i drafod dyddiad y diwrnod chwaraeon ymhellach ond yn cymeradwyo'r dyddiadau eraill.

c) Materion Gwledig – William Jones

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Trafodwyd y Daith Materion Gwledig blynyddol a chytunwyd i fynd i Cumbria. Y dyddiadau a'i agrymwyd oedd Hydref 14-16 2022.
2. Penderfynwyd ar drefniadau Sioe Frenhinol Cymru 2022. Bydd y Cig oen o'r Menter Wyn yn cael ei weini yn Cinio'r Llywydd yn ystod y Sioe ar Ddydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022.
3. Bydd ennillwyr Menter Moch yn cael eu cyhoeddi ar Ddydd Mawrth 19 Gorffennaf 2022 yn ystod seremoni wobrau y cystadlaethau.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

d) Digwyddiadau a Marchnata – Aled Thomas

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Diolchodd y Pwyllgor i Phil Ellis am y gwaith wnaeth gyda'r pwyllgor a mudiad y CFFI yn ehangach.
2. Prifysgol Harper Adams, Massey Fergusion, Cymdeithas Sioe Frenhinol Cymru a Castell Howell Foods wedi cytuno i noddi'r Pentref Ieuencid eleni, sy'n gyfanswm o £20,000 – yn cyrraedd target noddi.
3. Hyd at 1af o Orffennaf, mae 493 o docynnau pentref wedi'u gwerthu. 346 o rheiny yn aelodau a 147 yn ddi-aelod. 146 tocyn yn aelodau dan 18.
4. Mwyafrif o'r DJ's a bandiau wedi eu cyhoeddi, gyda'r amserlen yn edrych yn bositif iawn.
5. Byddai unrhyw wirfoddolwyr i stiwardio yn cael eu gwerthfawrogi, cysylltwch a Claire neu Anna i rhoi'ch enw.

6. Bydd y pwyllgor yn trefnu digwyddiad cymdeithasol ar gyfer y nos Wener a'r nos Sadwrn eleni, gyda'r bwriad bydd y 'Sir gwesteio' yn cymryd yr awennau I drefnu'r digwyddiadau cymdeithasol o 2023. Themau I'w cylchredeg yn agosach at yr amser.
7. Bydd amserlen 3 blwyddyn yn cael ei wneud ar gyfer y sir gwesteio o'r CCB yn nigwyddiad eleni.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Cynhelir penwythnos CCB yng Nghaerdydd rhwng 16-18 Medi 2022 gyda digwyddiadau ar nos Wener a nos Sadwrn. Lleoliad I'w gadarnhau.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Pawb yn hapus gyda dyddiad y CCB.

e) Rhyngwladol – Nerys Lewis

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Gobeithio cynnal derbyniad barbeciw ar gyfer y cynrychiolwyr teithiau cyfnewid ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 16, cyn Sioe Frenhinol Cymru fydd yn agored i bawb.
2. Wedi siarad gyda'r Fforwm Ieuencid, yn edrych i gynnal tri gweithgaredd penwythnos ar draws Cymru (Gogledd, Canolbarth, De.) Bydd hyn yn cymryd lle yr Her Hwyllo.
3. Taith sgio wedi'i threfnu ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan edrych ar fis Ionawr ar gyfer 100 o bobol.
4. Trafododd y pwyllgor raglen deithio 2023, gan edrych ar gynnal mwy o deithiau arddull DU/Ewropeaidd, yn hytrach na Safari. Trefnu trip sgio i fyny at 100 o bobol.
5. Nododd y pwyllgor fod angen i ni annog mwy o bobl i groesawu cynrychiolwyr sy'n ymweld.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Derbyniad Barbeciw Dydd Sadwrn i'w gynnal ar gyfer cynrychiolwyr sy'n ymweld.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Caryl Haf yn son bod angen holi'r CAFC o ran defnyddio'r tu allan. Nerys yn son fyddant yn cymryd rheolaeth o'r gost ond fydd yn gyfle i'r cynrychiolwyr o America ddod i adnabod pobol cyn y sioe.

Cymeradwyodd y pwyllgor y barbeciw.

f) Fforwm Ieuencid – Cerys Harts

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Cyfarfod llwyddiannus gyda 5 aelod wedi mynychu.
2. Cerys wedi bod mewn cyfarfod gyda Senedd Ieuencid Cymru, fydd yn cynnal sesiwn cwestiwn ac ateb gyda aelodau CFFI yn adeilad S4C ar ddydd Mawrth y Sioe Frenhinol, lle bydd Carys a Cerys yn banelwyr.
3. Wedi trafod cynlluniau ar gyfer y Sioe Frenhinol – gobeithio ei fydd yn ffordd o hyrwyddo CFFI i bobl ifanc yn y sioe. Gobeithio cynllunio stondin i werthu gliter gwyneb, a threfnu rota o aelodau fydd ar gael i

- helpu. Gobeithio trefnu gweithgareddau syml fydd ddim angen rhywun i ofalu amdano.
4. Sir Benfro – mynd i adrodd yn ol fod aelodau o gyfarfod heddiw yn awyddus i fynychu'r digwyddiad gwyl mewn cae i rhoi ysbrydoliaeth i siroedd arall.
 5. Mynd i drafod dyddiad y cyfarfod nesaf, gan fydd aelodau wedi gadael i fynd i brifysgol erbyn mis Medi.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

- g) Adeliad – Caryl Haf yn absenoldeb Dafydd Jones

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Diolchodd y pwyllgor i Mr Phil Elis am bob ymdrech ar waith gyda'r adeilad ac yn dymuno'r gorau iddo i'r dyfodol.
2. Ni does gwaith yn cael ei wneud ar gynlluniau'r adeilad tan wedi'r sioe pan fydd archwiliad manwl i'r hyn gan Celf Creative a gwneud penderfyniad o'r ffordd ymlaen. Diolchodd i Cary, Hilary a Chris am y cydweithrediad i gynllunio strategaeth, sydd wedi bod yn heriol yn dilyn Cofid.
3. Pryderu bod y pwyllgor yn rhai sydd wedi gadael y mudiad ac yn falch o fedru croesawu aelodau presennol CFFI i'r pwyllgor. Annog aelodau'r cyngor i gymryd sylw a gwneud nodyn o beth sy'n gweitho'n dda a sut i wella defnydd yr adeilad i'r aelodau a'r cyhoedd. Hapus i wrando ar unrhyw sylwadau i alluogi cynllunio cadarn a gwariant effeithiol a phwrpasol.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

- h) Personél a Thâl – Caryl Haf

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi:

1. Ymddiswyddodd Mr Phil Elis ym mis Mai a gadawodd y mudiad ar 30 Mehefin 2022. Gwasanaethodd Phil ychydig llai na 6 mis fel Prif Weithredwr a theimlodd and oedd y rol yn gweddu iddo, dymunwn y gorau iddo ar gyfer y dyfodol.
2. Mae Claire Powell wedi'i phenodi'n Brif Weithredwr dros dro o 1 Gorffennaf 2022, yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos, Dydd Llun – Dydd Mercher a Dydd Gwener.
3. Bydd swydd y Prif Weithredwr yn cael ei ail-hysbysebu maes o law.
4. Gadawodd Elizabeth Swinney y sefydliad ar 24 Mehefin 2022, teimla CFFI Cymru a Lizzie and oedd y rol a rei chyfer hi ac unwaith eto dymunwn yn dd ai Lizzie ar gyfer y dyfodol. Bydd rol Materion Gwledig yn cael ei hysbysebu cyn gynted a phosib.
5. Mae Nia Haf, Swyddog Datblygu Dwyieithrfwydd wedi cytuno i godi e-byst Materion Gwledig ac i gefnogi gwaith y Fforwm Ieuencid.
6. Bydd Claire a'r staff eraill yn cefnogi gwaith y pwyllgor Materion Gwledig.

7. Mae Swydd Swyddog Codi Arian sydd wedi'i hariannu'n llawn am 12 mis wedi'u hysbysebu. Mae ceisiadau wedi cau a fydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal maes o law.
8. Ymunodd Sally Griffiths gyda staff y swyddfa ar 23 Mai a Rebecca Duggan ar 27 Mehefin. Mae'r ddwy wedi eu penodi dros dro ac yn cynorthwyo gyda'r paratodau ar gyfer y sioe a'r Pentref Ieuenctid.
9. Mae'r swyddfa bellach ar agor o Ddydd Llun – Dydd Gwener o 9yb – 5yp gyda oleua dau aelod o staff yn y swyddfa pob diwrnod.
10. Prif ffocws yr holl staff ar hyn o bryd yw paratoi ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru a'r Pentref Ieuenctid.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo:

Ni chyflwynwyd unrhyw bwyntiau i'w cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd rhagor o drafodaethau.

Ar ddiwedd yr holl adroddiadau, gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cyngor i fabwysiadau'r adroddiadau sydd wedi'u cynnig.

Cynigydd : Brycheiniog

Eilydd: Meirionnydd

C/21/2022

CCB

a) Levi 2022/23

Hwn yw'r levi sy'n cyfeirio at y Siroedd cysylltiedig. Yn unol a FfCCFFI, yr hyn sy'n digwydd fel arfer yw bod cynigion yn cael eu cyflwyno a bod pleidlais yn cael ei chynnal yn y CCB.

	Subs billed	Subs billed
Subs billing	10-26/28	Assoc
Sep-21	£10.00	£10.00
Sep-22	£25.80	£15.00
Sep-23	£25.80	£15.00
Sep-24	£30.00	£15.00
Sep-25	£32.50	£15.00

Dyddiad y CCB fydd 17 Medi 2022, Cadeirydd yn son fod y dyddiad cau ar gyfer cynigion i fod oleua pythefnos cynt. Katie Davies yn awgrymu 2 Medi 2022, pawb yn cytuno. Cadeirydd yn cadarnhau fod y dyddiad hwn ar gyfer pawb, gan gynnwys Siroedd sydd ddim yn rhan o'r Ffederasiwn Cenedlaethol. Bydd y bleidlais yn cymryd lle yn y CCB.

b) Fformat y cyfarfod

Llywydd CFFI Cymru sydd yn cadeirio'r cyfarfod fel arfer, holodd y Cadeirydd os oedd yr aelodau yn hapus i ddilyn yr un fformat eleni eto. Pasiwyd y fformat gan y cyngor fel y blynyddoedd canlynol.

C/22/2022

FfCCFFI

Pwysleisiodd Ed Dungait pa mor wych oedd hi i fod yn Llanelwedd am y tro gyntaf a diweddarodd y Cyngor ar waith FfCCFFI.

- Bu CCB a penwythnos panto yn Ebrill, llongyfarchodd Morgannwg a Gwent ar eu llwydiant oedd yn wych i'w gweld. Roedd CCB gyda'u presenoldeb waethaf, gyda ambell un o Gymru a bu yn lwyddiannus. Cynnig a gytunwyd; Aelod Cysylltiedig i fynd o £10 i £15 / Hyrwyddo Bwyd Pryderinig ym mhob cystadleuaeth.
- Cyngor – mae premiymau yswiriant yn newid; £156 y clwb, £188 y sir a £3 yr aelod. Bydd yr ardoll yn aros yr un peth ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd- £25.80 gan nad oedd unrhyw gynigion i newid hynny.
- Bydd mwy o gyrsiau diogelu, fydd yn ofynnol i bob swyddog ac arweinydd, gyda staff ychwanegol gyda FfCCFFI i ymdrin a'r diogelu.
- O ran staffio, mae recriwtio i'w weld yn anodd.
- Gwobrau cyflawniad – bydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb ar Chwefror 11.
- Aelodaeth – dros 22,000 o aelodau sy'n fwy na'r hyn oedd yna yn 2019. Mwy o bobl dan 18 na rhai dros 18 oed sy'n profi'n her. Bydd cardiau aelodaeth nesaf ar y ffonau gyda chodau QR.
- Diolchodd i bawb am y gwahoddiadau ar gyfer digwyddiadau, mi wnaeth fwynhau dawns Gwent ac yn edrych ymlaen at fod yn ol yn Llanelwedd i feirniadau yn ystod Sioe Frenhinol Cymru.
- Digwyddiada cymdeithasol FfCCFFI - cafwyd niferoedd siomedig, roedd sesiwn 12 awr ond cafwyd traffeth denu diddordeb felly mae'n rhywbeth i weithio arno. Roedd DJ's o Gymru a chefnogaeth yno ar eu cyfer. Deall bod gwrthdaro ar gyfer ralis sirol. Bydd yn sicrhau dyddiad cyn gynted ag y modd a chael lleoliad fwy canolog. Soniodd Katie Davies byddai'r CCB diwethaf wedi bod yn 2018 felly ni fyddai nifer o'r aelodau presennol yn cofio'r penwythnos fel yr oedd hi, ond o bosib byddai nifer o'r hen aelodau yn awyddus i fynd yn ol. Soniodd rhai ei fod yn bell i deithio ar gyfer un noson. Nid yw Ed yn credu gallai rhoi'r CCB yn ol yn Blackpool gan na fyddai'n gweithio bellach gan nad oes bwriad gan pobol i fynychu'r digwyddiad CFFI.

AELODAETH

Cafodd niferoedd aelodaeth eu cylchredeg, wnaeth y Cadeirydd ganmol y siroedd ar y cynnydd mewn niferoedd. Mae'r nifer o aelodau yn CffI Cymru dros 5,000 am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn.

C/24/2022

EITEMAU AGENDA'R CYFARFOD NESAF A'R DYDDIAD

Nodwyd mai dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf y Cyngor fyddai:

Dydd Sadwrn, 17 Medi 2022 – CCB

Dydd Sul, 18 Medi 2022 – Cyngor

Dydd Sadwrn, 21 Ionawr 2023 – Cyngor

Dydd Sul, 11 Mehefin, 2023 – Cyngor

Pawb yn cytuno gyda'r dyddiadau a ni ddaeth unrhyw eitemau penodol i'w cynnwys ar agenda y cyfarfod nesaf.

C/25/2022

UNRHYW FATERION ERAILL

Hysbysodd Ceredigion fod CffI Ceredigion yn cynnal sioe yn pafiliwn Eisteddfod Genedlaethol ar y nos Lun, roedd nifer mewn ymarferion dros amser y cyfarfod felly ymddiheiriadau am y prinder cynrychiolaeth, ond fod tocynnau ar werth ar wefan yr Eisteddfod. Gan ei bod yn dathlu 80 mlynedd, mae tocynnau raffl hefyd ar werth.

Soniodd Caryl Haf fod sgwrs yn Eisteddfod Genedlaethol ar y dydd Sadwm cyntaf rhyngddi hi ac ennillwyr y Gadair a'r Goron llynedd, braf gweld bod cysylltiadau'n cael eu gwneud.

Dymunodd y gorau hefyd i Faterion Gwledig Ewrop yn CCB yr Almaen.

Dymunodd pob lwc i'r aelodau sy'n cymryd rhan yn holl weithgareddau CFFI ar draws Cymru dros y Haf ac i gofio cysylltu gyda swyddogion CFF a'r staff am unrhyw gefnogaeth fydd angen. Dymunodd taith ddiogel adref i bawb a diolchwyd i'r aelodau am eu cefnogaeth, cyhoeddwyd fod y cyfarfod ar ben am 3.03.